

**Rhaglen Datblygiad Staff
Academaidd**

2018/19



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

[www.colegcymraeg.ac.uk/cy/
ycoleg/rhaglendaiblygiadstaff](http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/ycoleg/rhaglendaiblygiadstaff)



Rhaglen Datblygiad Staff Academaidd

2018/2019

Cyflwyniad

Croeso i Raglen Datblygiad Staff Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer 2018/19.

Bwriedir y rhaglen hon ar gyfer pawb yn y sector addysg uwch sy'n dymuno derbyn hyfforddiant sgiliau proffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg ac i gymhwyso fel addysgwyr academaidd. Cynigir y sesiynau hyn i bob aelod o staff, boed yn staff newydd neu staff profiadol sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Darperir y rhaglen hon er mwyn hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus academyddion sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhennir y rhaglen yn gyfres o weithdai sy'n cyflwyno gwybodaeth am gyd-destun y sector addysg uwch, datblygiadau mewn polisi a strategaeth, neu'n datblygu sgiliau ymarferol staff fel addysgwyr.

Mae croeso i staff fynychu unrhyw sesiwn sydd o ddiddordeb iddynt. Nid oes rhaid dilyn unrhyw gynllun cymhwyso penodol er mwyn gallu mynychu'r gweithdai unigol hyn ac fe ellid eu dilyn fel rhan o'ch datblygiad proffesiynol parhaus.

Fodd bynnag, mae'r Rhaglen hefyd wedi'i datblygu oddi fewn i fframwaith strwythuredig rhaglenni cymhwyso y gwahanol sefydliadau. O ganlyniad, mae Rhaglen Datblygiad Staff Academaidd y Coleg yn bwydo i fewn i'r Tystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (TUAUU), sy'n galluogi unigolion i gymhwyso'n ffurfiol fel addysgwyr prifysgol gyda sêl bendith yr Academi Addysg Uwch.

Darperir y sesiynau hyn mewn partneriaeth rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a sefydliadau addysg uwch Cymru. Ceir mwy o wybodaeth am ddarpariaeth hyfforddiant eich prifysgol chi ar wefan y brifysgol neu drwy gysylltu ag uned Datblygu Staff neu Ganolfan Datblygu Academaidd eich prifysgol.

Gorolwg o'r Rhaglen:

(i) Cwrs Cynefino	Llanbedr Pont Steffan, 10-11 Ionawr 2019
	ar gyfer pawb sy'n dechrau ar y Tystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (TUAUU)
(ii) Gweithdai	<ul style="list-style-type: none">• yn cyfrannu at dystysgrif y TUAUU• modiwlau gradd meist'r ar ddysgu ac addysgu• rhaglenni Datblygu Proffesiynol Parhaus

Rhaglen Datblygiad Staff Academaidd

2018/2019

Tystysgrif Uwchraddedig Addysgu Mewn Addysgu Uwch:

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydweithio'n agos gyda phrifysgolion Cymru er mwyn darparu'r TUAU trwy gyfrwng y Gymraeg. Cymhwyster yw hwn a achredir gan yr Academi Addysgu Uwch ar gyfer pob aelod o staff, boed yn staff newydd neu staff profiadol, sy'n addysgu neu'n dymuno addysgu yn y Gymraeg, sy'n cadarnhau fod ganddynt y medrau angenrheidiol i fod yn addysgwyr yn y sector addysgu uwch.

Strwythur y Cwrs:

Mae'r cynllun yn dechrau gyda chwrs cynefino preswyl, sy'n cael ei gynnal dros gyfnod o ddeud-dydd, ac sy'n cynnwys cyfres o weithdai rhagarweiniol. Wedi hynny, bydd gofyn i'r hyfforddeion fynychu nifer penodedig o weithdai yn ystod y cymhwyster ac adeiladu portffolio yn adfyfrio ar eu sgiliau addysgu.

Mae holl weithdai'r Coleg wedi'u mapio yn erbyn **Fframwaith Safonau Proffesiynol yr Academi Addysgu Uwch**. Nodir yn y rhestr drosodd p'un a ydynt yn berthnasol i Ddisgrifiad 1 (L1) y Fframwaith Safonau neu Ddisgrifiad 2 (L2). Mae gweithdai L1 yn bennaf ar gyfer staff sy'n dechrau addysgu ac yn ymgeisio am gymhwyster 'Cymrawd Cysylltiedig' yr AAU, tra bod gweithdai L2 yn bennaf ar gyfer staff ychydig mwy profiadol sy'n ceisio am gymhwyster 'Cymrawd' yr AAU. Mae pawb sy'n llwyddo cwblhau'r cwrs TUAU cyfan yn gymwys i fod yn Gymrawd.

Ceir disgrifiad llawn o amcanion, cynnwys, a deilliannau pob gweithdy ar wefan y Coleg a sut mae'r gweithdai yn perthnasu i Fframwaith Safonau'r AAU. Ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Safonau ei hun ar wefan yr AAU:

<https://www.heacademy.ac.uk/professional-recognition/uk-professional-standards-framework-ukpsf>

Dylai'r sawl sy'n dymuno dilyn y TUAU gysylltu gydag uned Datblygu Staff eu prifysgol leol er mwyn cofrestru. Er mwyn mynychu unrhyw hyfforddiant TUAU a ddarperir yn y Gymraeg, bydd angen cofrestru fesul cwrs a gweithdy a ddarperir gan y Coleg drwy lenwi'r ffurflen berthnasol ar wefan y Coleg.

Gwybodaeth Bellach

Am fanylion llawn Rhaglen Datblygiad Staff Academaidd 2018/19, yn cynnwys amcanion, deilliannau a dulliau asesu'r hyfforddiant, ynghyd â ffurflenni i gofrestru ar y cyrsiau hyn, ewch i wefan y Coleg: www.colegcyfraeg.ac.uk/cy/ycoleg/rhaglendamdatblygiadstaff

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at Reolwr Datblygu Staff y Coleg trwy e-bost: datstaff@colegcyfraeg.ac.uk

Bydd cynnal y sesiynau hyn yn dibynnu ar niferoedd, felly er mwyn sicrhau lle ar unrhyw un o'r isod, lawrlwythwch ffurflen gofrestru oddi ar wefan y Coleg.

RHAGLEN DATBLYGIAD STAFF ACADEMAIDD

2018/2019

Aberystwyth Caerdydd	Mercher, Hydref 24, 2018 Gwener, Hydref 26, 2018
Cwrs Hyfforddi wyneb-yn-wyneb 'Cyfoethogi Dysgu trwy Dechnoleg'	

Rhwydwaith Fideo	Gwener, Tachwedd 16, 2018	
11.00 - 13.00	Dr Leila Griffiths	Ymgorffori Sgiliau Astudio mewn Addysgu (L2)
14.00 - 16.00	Dr Gwawr Ifan	Gwerthuso a Datblygu eich Addysgu (L2)
Rhwydwaith Fideo	Gwener, Rhagfyr 7, 2018	
11.00 - 13.00	Annette Edwards	Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid (L1)
14.00 - 16.00	Dr Anwen Jones	Ymarfer fel Ymchwili (L2)

Llanbedr Pont Steffan	Iau - Gwener, Ionawr 10-11, 2019
Cwrs cynefino preswyl ar gyfer hyfforddeion sy'n dechrau ar y TUAU	

Rhwydwaith Fideo	Gwener, Ionawr 25, 2019	
11.00 - 13.00	Dr Ifan M. Jones a Dr Cynog Prys	Gwefannau Cymdeithasol ar gyfer Addysgu (L1)
14.00 - 16.00	Ilyr Roberts	Marchnata a Denu Myfyrwyr (L1)
Rhwydwaith Fideo	Gwener, Chwefror 15, 2019	
11.00 - 13.00	Mari Ellis Roberts	Gosod Nodau Personol (L1)
14.00 - 16.00	Nia Gwynn Meacher	Meddwl yn Greadigol a Datrys Problemau (L1)
Rhwydwaith Fideo	Gwener, Mawrth 22, 2019	
11.00 - 13.00	Dr Dafydd Trystan	Cydweithio Sefydliadol (L2)
14.00 - 16.00	Dr Myfanwy Davies	Dilysu Modylau (L2)
Rhwydwaith Fideo	Gwener, Ebrill 12, 2019	
11.00 - 13.00	Non Vaughan-Williams a Dr Rhian Meara	Arolygu Traethawd Hir (L2)
14.00 - 16.00	Jenny Greene a Mairwen Owen	Hawlfraint Defnyddio Adnoddau (L1)
Rhwydwaith Fideo	Gwener, Mai 17, 2019	
11.00 - 13.00	Dr Elin Royles a Dr Hefin Jones	Dulliau Goruchwyllo Ymchwilwyr Ôl-radd (L1)
14.00 - 16.00	Dr Eben Muse a Dr Steffan Thomas	Y Berthynas Oruchwyllo (L1)

Cynhadledd Ymchwil y Coleg	3 Gorffennaf 2019	Gregynog
Cynhadledd ymchwil am-ddisgyblaethol blynyddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol		